Rhif: **WG17448**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Ymgynghoriad ar wahardd saethu Gwyddau Talcen-wyn yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: **11 Chwefror 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **19 Ebrill 2013**

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn am y cynnig i gyflwyno gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau Talcen-wyn yng Nghymru trwy gydol y flwyddyn (yn cynnwys yn y 'tymor agored'). Byddai'r gwaharddiad statudol yn dod i rym ar 01 Medi 2013.

Ceir dau fath o Wyddau Talcen-wyn yn y Deyrnas Unedig: y rhai o dras Ewrasiaidd (neu Ewropeaidd) a'r rhai o dras yr Ynys Las. Mae statws poblogaethau bydeang y ddwy dras yn wahanol iawn. Mae Gwyddau Talcen-wyn Ewrasiaidd yn fwy niferus o lawer ond cyfrifir bod poblogaeth fyd-eang Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las "Mewn Perygl".

Er bod cryn bryder ynghylch gwarchod Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las, mae Gwyddau Talcen-wyn wedi'u rhestru yn Atodiad II, Rhan B o Gyfarwyddeb Adar 2009/147/EC sy'n golygu y gellir awdurdodi hela Gwyddau Talcen-wyn yn y Deyrnas Unedig o dan erthygl 7(3) o'r Gyfarwyddeb. Trosir y rhan hon o'r Gyfarwyddeb i gyfraith ddomestig o dan adran 2, a Rhan 1 o Atodlen 2, o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae hyn yn golygu y caniateir lladd neu gymryd Gwyddau Talcen-wyn y tu allan i'r 'Tymor Caeedig' yng Nghymru a Lloegr. Y tymor caeedig yw'r cyfnod rhwng 1 Chwefror a 31 Awst bob blwyddyn neu, mewn perthynas â hwyaid gwylltion a gwyddau gwylltion, mewn unrhyw ardal neu dros unrhyw ardal sydd islaw marc penllanw ar orllanw arferol, rhwng 21 Chwefror a 31 Awst.

## Sut i ymateb

Gofynnir i chi ymateb i'r ymgynghoriad hwn naill ai trwy:

ebost:
natureconservation@wales.gsi.gov.uk
neu'r
post:

Cangen Natur, Tirwedd a Hamdden Awyr Agored
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Holwch os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu iaith arall.**

© Hawlfraint y Goron 2013

## Manylion cysylltu

Cangen Natur, Tirwedd a Hamdden Awyr Agored
Llywodraeth Cymru
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
SY23 3UR

ebost: natureconservation@wales.gsi.gov.uk
fôn: 0300 062 2253

## Diogelu data

Sut y defnyddir y sylwadau a'r wybodaeth a roddwch chi i ni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Fe allwn gyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel rheol, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r corff a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn help i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i ni gyhoeddi'ch enw neu'ch cyfeiriad, nodwch hynny ar bapur wrth anfon eich ymateb. Yna byddwn yn eu cuddio.

Hyd yn oed os byddwn yn cuddio enwau neu gyfeiriadau, gallent gael eu cyhoeddi yn nes ymlaen ond nid ydym yn meddwl y bydd hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu hefyd i ni ddal gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd rhywun yn gofyn am gael gweld gwybodaeth yr ydym wedi'i dal yn ôl, bydd raid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi eu henw a'u cyfeiriad, byddai hynny'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig pam y byddai'n rhaid i ni ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun er eu bod wedi gofyn i ni beidio â'u datgelu. Byddem yn cysylltu â'r person hwnnw ac yn gofyn eu barn cyn penderfynu datgelu'r wybodaeth.

**Cynnwys**


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Beth yw’r prif faterion dan sylw?** | **1** |
| **2.** | **Beth yw’r sefyllfa ar hyn o bryd?** | **2** |
| **3.** | **Tystiolaeth dros newid** | **4** |
| **4.** | **Y Cynigion** | **6** |
| **5.** | **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | **7** |

## Beth yw'r prif faterion dan sylw?

Ceir dau fath o Wyddau Talcen-wyn (*Anser albifrons*) yn y Deyrnas Unedig: y rhai o dras Ewrasiaidd (neu Ewropeaidd) (*Anser albifrons albifrons)* a'r rhai o dras yr Ynys Las (*Anser albifrons flavirostris*). Mae statws poblogaethau byd-eang y ddau fath yn wahanol iawn. Mae Gwyddau Talcen-wyn Ewrasiaidd yn fwy niferus o lawer ond cyfrifir bod poblogaeth fyd-eang Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las "Mewn Perygl". Yn ôl yr amcangyfrif diweddaraf (Ebrill 2011), 25,756 o Wyddau Talcen-wyn yr Ynys Las sydd yn y byd[1].

Er bod cryn bryder ynghylch gwarchod Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las, mae Gwyddau Talcen-wyn wedi'u rhestru yn Atodiad II, Rhan B o Gyfarwyddeb Adar 2009/147/EC sy'n golygu y gellir awdurdodi hela'r ddau fath o Wyddau Talcen-wyn yn y Deyrnas Unedig o dan erthygl 7(3) o'r Gyfarwyddeb. Mae'r rhan hon o'r Gyfarwyddeb wedi ei throsi'n gyfraith ddomestig o dan adran 2, a Rhan 1 o Atodlen 2, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Mae hyn yn golygu y caniateir lladd neu ddal Gwyddau Talcen-wyn y tu allan i'r 'Tymor Caeedig' yng Nghymru a Lloegr. Y tymor caeedig yw'r cyfnod rhwng 1 Chwefror a 31 Awst bob blwyddyn neu, mewn perthynas â hwyaid gwylltion a gwyddau gwylltion, mewn unrhyw ardal neu dros unrhyw ardal sydd islaw marc penllanw ar orllanw arferol, rhwng 21 Chwefror a 31 Awst.

Mae'r Deyrnas Unedig yn bwysig i Wyddau Talcen-wyn yr Ynys Las. Amcangyfrifir bod tua hanner poblogaeth y byd yma yn y gaeaf. Er mai dim ond ychydig o Wyddau Talcen-wyn yr Ynys Las sy'n bwrw'r gaeaf yng Nghymru'n rheolaidd, mae'r rhai sydd yn gaeafu yng Nghymru yn hanfodol er mwyn cynnal ehangder dosbarthiad y boblogaeth yn trwy Brydain (ac yn rhyngwladol). Eisoes, collwyd nifer o safleoedd yng Nghymru lle bu'r gwyddau hyn yn gaeafu yn y gorffennol[2]. Os na chymerir y camau priodol i sicrhau bod cyn lleied ag y bo modd o Wyddau Talcen-wyn yr Ynys Las yn eu llawn dwf yn marw, e.e. trwy wahardd hela, gellid gweld hynny fel methiant bwriadol i gyflawni'n dyletswyddau gartref a thramor o ran hybu cadwraeth.

Mae cyfraddau marwolaeth Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las yn eu llawn dwf yn achos pryder am ddau reswm:

1. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y gwyddau hyn yn deyrngar iawn i'w safleoedd gaeafu (Wilson *et al.*1991[3], Warren *et al.* 1992)[4] a'u bod yn gwneud defnydd traddodiadol iawn o'r safleoedd ar bob adeg o'r flwyddyn (Fox *et al.* 2002)[5]. Mae hyn yn golygu, os 'collir' safleoedd,

[1] Fox, A.D., Francis, I.S. & Walsh, A. 2011. *Report of the 2010/11 international census of Greenland White-fronted Geese.* Greenland White-fronted Goose Study & National Parks and Wildlife Service. 18 pp.

[2] Fox, A.D. & Stroud, D.A. (1986). The Greenland White-fronted Goose in Wales. *Nature in Wales (New Series)* 4: 20-27).

[3] Wilson, H.J., Norriss, D.W., Walsh, A., Fox, A.D. & Stroud, D.A. 1991. Winter site fidelity in Greenland White-fronted Geese: implications for conservation and management. *Ardea* 79(2): 287-294.

[4] Warren, S.M., Fox, A.D., Walsh, A. & O'Sullivan, P. 1992. Age of first pairing and breeding amongst Greenland White-fronted Geese. *Condor* 94: 791-793.

[5] Fox, A.D. & Stroud, D.A. 2002. *Anser albifrons flavirostris* Dalgety & Scott 1948, Greenland White fronted Goose. *Birds of the Western Palearctic Update* 4(2): 1-22.

efallai na ddaw'r gwyddau yn ôl yno gan fod yr adar ifanc yn dysgu lle i fynd trwy ddod yno gyda'u rhieni yn ystod eu gaeaf cyntaf.

2. Nid yw'r boblogaeth yn gynhyrchiol iawn ac, yn y rhan fwyaf o'r deng mlynedd diwethaf, collwyd mwy nag a enillwyd, gan arwain at ostyngiad yn y niferoedd o flwyddyn i flwyddyn. Ni wyddom yn iawn pam nad ydynt yn fwy cynhyrchiol ond gallai fod yn gysylltiedig â'r ffaith eu bod wedi cael mwy o eira nag arfer ar eu tiroedd magu tua diwedd y gaeaf neu yn y gwanwyn dros y blynyddoedd diwethaf a/neu ganlyniadau'r rhyngweithio rhyngrywogaethol ar y tiroedd magu gyda Gwyddau Canada (*Branta canadensis*)[6].

## Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Cyfrifir bod poblogaeth fyd-eang Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las "Mewn Perygl" gan ddefnyddio meini prawf Rhestr Goch fyd-eang IUCN (Undeb Rhyngwladol Cadwraeth Natur). Yn ogystal, mae Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las wedi'u rhestru yn Nhabl 1, colofn 2* Cynllun Gweithredu'r Cytundeb ar Warchod Adar Dŵr Mudol Affricanaidd-Ewrasiaidd (AEWA); Atodiad II o Gonfensiwn Bonn (Confensiwn ar Rywogaethau Mudol (CMS)); ac yn Atodiad 1 o Gyfarwyddeb yr UE ar Warchod Adar Gwyllt (y Gyfarwyddeb Adar). Maent hefyd yn rhywogaeth y rhoddir blaenoriaeth i weithredu yn eu cylch o dan adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC). Rhywogaethau blaenoriaeth oedd y rhai a bennwyd fel y rhai o dan y bygythiad mwyaf a bod angen cymryd camau i'w gwarchod o dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU (UK BAP) fel yr oedd. Un o'r camau a restrid o dan yr UK BAP oedd tynnu Gwyddau Talcen-wyn o Atodlen 2 rhan 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yng Nghymru. Dilynwyd UK BAP gan Fframwaith Bioamrywiaeth Ar Ôl 2012[7] yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae rhestr y DU o rywogaethau blaenoriaeth yn dal yn ffynhonnell gyfeirio bwysig. O dan NERC, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd pa gamau bynnag sy'n rhesymol ymarferol i hybu cadwraeth yr organebau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw restr a gyhoeddwyd o dan adran 42.

Mae Gwyddau Talcen-wyn Ewrasiaidd/Ewropeaidd yn magu yn Rwsia'r arctig ac yn mudo ar draws Dwyrain Ewrop i fwrw'r gaeaf yn ne Lloegr a Chymru. Mae Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las yn magu yng ngorllewin yr Ynys Las ac yn mudo dros Wlad yr Iâ er mwyn bwrw'r gaeaf mewn nifer fechan o safleoedd traddodiadol yng Nghymru, Iwerddon a'r Alban. Aber afon Dyfi (yng ngorllewin Cymru) yw'r prif safle yng Nghymru lle maent yn gaeafu. Mae Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las yn un o'r nodweddion sy'n gwneud Aber Afon Dyfi'n gymwys i fod yn Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Gweler Ffigurau 1 a 2.

---

[6] AWEA; Draft international single species action plan for the conservation of Greenland White Fronted Geese ar http://www.unep-aewa.org/meetings/en/mop/mop5_docs/pdf/mop5_27_draft_ssap_gwfg.pdf

[7] hhtp://jncc.defra.gov.uk/page-6189

Ffigur 1. <u>Dosbarthiad **Gwyddau Talcen-wyn Ewrasiaidd/ Ewropeaidd** ledled Cymru o ddata WeBS rhwng 1990 a 2012.</u>




Ffigur 2: <u>Dosbarthiad **Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las** ledled Cymru o ddata WeBS rhwng 1990 a 2012.</u>




<u>Cytundeb Adar Dŵr Affricanaidd-Ewrasiaidd (AWEA)</u>

Mae'r Cytundeb Adar Dŵr Affricanaidd-Ewrasiaidd (AWEA) yn gytuniad rhwng llywodraethau ac mae'r DU yn barti contractio iddo. Ei nod yw gwarchod adar dŵr mudol a'u cynefinoedd ledled Affrica, Ewrop, y Dwyrain Canol, Canol Asia, yr Ynys Las ac Archipelago Canada. Mae AEWA yn dwyn ynghyd wledydd a'r gymuned ryngwladol ehangach sy'n ymwneud â gwaith cadwraeth mewn ymdrech i sicrhau bod adar dŵr mudol yn cael eu gwarchod a'u rheoli mewn ffordd gydgysylltiedig ym mhob rhan o'u cylch mudo[8].

Mae statws Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las o dan AEWA yn golygu *y caiff hela barhau ar sail 'defnydd cynaliadwy' os yw hela'r poblogaethau hyn yn hen arferiad diwylliannol. Rhaid cynnal y 'defnydd cynaliadwy' hwn o fewn fframwaith darpariaethau arbennig cynllun gweithredu ar gyfer y rhywogaeth ar lefel ryngwladol briodol*[9].

Cytunwyd yn ffurfiol ar gynllun gweithredu rhyngwladol ar gyfer rhywogaeth Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las gan bumed Cyfarfod Partïon AEWA ym mis Mai 2012. Datblygwyd y cynllun gan arbenigwyr a rhanddeiliaid yn yr holl wladwriaethau yr oedd y gwyddau'n ymweld â nhw ac roedd yn cynnwys

[8] http://www.unep-aewa.org/about/introduction.htm
[9] AWEA Status of the populations of migratory waterbirds - Tabl 1 ar http://www.unep-aewa.org/documents/agreement_text/table1-overview.htm

gweithdy rhyngwladol yn yr Alban yn 2009 i ddatblygu consensws ar y camau angenrheidiol i warchod y boblogaeth.

Un o brif flaenoriaethau cynllun gweithredu AWEA ar gyfer gwarchod rhywogaeth Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las yw sicrhau bod cyn lleied ag y bo modd o achosion marwolaeth ychwanegol; (*Cymryd pob cam posibl i ddileu achosion marwolaeth a styrbans y gellir eu hosgoi, yn enwedig saethu a gwrthdaro ag adeiladweithiau a godwyd gan ddyn*)[10]. Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer y rhywogaeth yn nodi hefyd bod Gweithdy Rhyngwladol AWEA 2009 wedi dod i'r casgliad *na ellir hela mewn ffordd gynaliadwy ar hyn o bryd ac y byddai unrhyw ladd yn amharu ar statws cadwraeth y boblogaeth sydd eisoes yn anffafriol.*

O ran sicrhau bod llai o Wyddau Talcen-wyn yr Ynys Las yn cael eu lladd wrth hela, un cam penodol a nodir yn y cynllun gweithredu ar gyfer y rhywogaeth yw dechrau eu gwarchod (neu barhau i'w gwarchod) rhag hela trwy gydol y flwyddyn tra bydd statws cadwraeth y boblogaeth yn dal yn 'anffafriol'. (Neu, mewn geiriau syml, tra bydd niferoedd y boblogaeth yn ansefydlog neu nad ydynt yn cynyddu'n naturiol yn y tymor hir).

Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r holl Wyddau Talcen-wyn yn cael eu gwarchod trwy'r amser gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y diwygiwyd hi) a gan Orchymyn Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon) 1985.

O ran sicrhau bod llai o Wyddau Talcen-wyn yr Ynys Las yn marw o ganlyniad i wrthdaro ag adeiladweithiau a wnaed gan ddynion, mae'r cynllun gweithredu ar gyfer y rhywogaeth yn argymell y dylid cynnal Asesiadau o Effaith Amgylcheddol (AEA) unrhyw ffermydd gwynt neu ddatblygiadau seilwaith tebyg lle ceir perygl gwrthdaro.

## Tystiolaeth dros newid

Ychydig a wyddom, ar y cyfan, am niferoedd a dosbarthiad Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las cyn y 1950au. Mae'r wybodaeth yn awgrymu bod poblogaeth y byd wedi gostwng tua 18-28% rhwng y 1950au a diwedd y 1970au (Ruttledge & Ogilvie 1979)[11]. Ar ôl cyflwyno camau i'w gwarchod yn eu hardaloedd gaeafu (yn cynnwys gwahardd hela), ac yn yr Ynys Las tua dechrau'r 1980au, gwelwyd y niferoedd yn mwy na dyblu[12].

---


[10] Draft International Single Species Action Plan for the Conservation of the Greenland White-fronted Goose – see Mop 5.27 on http://www.unep-aewa.org/meetings/en/mop/mop5_docs/mop5_docs.htm

[11] Ruttledge, R.F. & Ogilvie, M.A. 1979. The past and current status of the Greenland White-fronted Goose in Ireland and Britain. *Irish Birds* 1: 293-363.

[12] Annex 1. Population estimates for Greenland White-fronted Geese see Mop 5.27 on http://www.unep-aewa.org/meetings/en/mop/mop5_docs/mop5_docs.htm and Fox, A.D., Norriss, D.W., Stroud, D.A. Wilson, H.J. & Merne, O.J. (1998). The Greenland white-fronted goose *Anser albifrons flavirostris* in Ireland and Britain 1982/83-1994/95: Population change under conservation legislation. *Wildlife Biology* 4: 1-12. Available at http://tinyurl.com/bhwpoge

Fodd bynnag, ers 1995, maent wedi magu cryn dipyn yn llai nag yn y blynyddoedd cynt a, rhwng 1999 a 2007, gwelwyd gostyngiad o dros draean yn y niferoedd yn gyffredinol[13].

Ffigur 3 – Graff yn dangos niferoedd Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las a gyfrwyd yn Aber Afon Dyfi rhwng 1990 - 2011 (Data gan Dr A.D. Fox (2012)[14])




Mae astudiaethau'n dangos bod y boblogaeth yn byw'n hir, ar y cyfan, os nad ydynt yn cael eu lladd gan helwyr ond bod y lefelau atgenhedlu'n isel iawn o dan yr holl amgylchiadau. Felly, gall y rhywogaeth ymdopi â chyfnodau o atgenhedlu isel, ond mae newidiadau cymharol fach yn y cyfraddau goroesi blynyddol yn dueddol o effeithio ar faint y boblogaeth gyfan. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig ceisio cynnal cyfraddau goroesi hirdymor yn ystod cyfnodau pan fydd y boblogaeth yn gostwng. Felly, credir ei bod yn bwysig iawn sicrhau bod llai'n cael eu lladd wrth hela[15].

Oherwydd y gostyngiad ym maint y boblogaeth, mae'r angen i warchod Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las yng Nghymru wedi'i chydnabod ers peth amser. Ers y 1970au, bu gwaharddiad gwirfoddol ar saethu Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las gan y clwb hela adar gwyllt lleol yn Aber Afon Dyfi (y brif ardal aeafu yng Nghymru). Mae Cod Ymarfer BASC (Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain) ar Saethu Adar Dŵr[16] yn nodi moratoriwm gwirfoddol ar saethu Gwyddau Talcen-wyn yng Nghymru. Yn 2012, enillodd BASC gefnogaeth pob clwb hela adar dŵr yng Ngogledd Cymru i osod moratwriwm gwirfoddol ar saethu Gwyddau Talcen-wyn yr ynys Las oherwydd y gofidiau cadwriaethol hyd nes y byddai'r boblogaeth wedi'i hadfer. Mae BASC yn credu od y moratoriwm hwn yn gweithio'n effeithiol.

---

[13] Fox, A.D., Francis, I.S. & Walsh, A. 2009. *Report of the 2008/09 international census of Greenland White-fronted Geese.* Greenland White-fronted Goose Study & National Parks and Wildlife Service. 18 pp.
[14] Dr A D Fox – pers comm
[15] International Single Species Action Plan for the Conservation of the Greenland White-fronted Goose – see Mop 5.27 on http://www.unep-aewa.org/meetings/en/mop/mop5_docs/pdf/mop5_27_draft_ssap_gwfg.pdf
[16] Cod ymarfer BASC ar hela adar dŵr http://www.basc.org.uk/en/codes-of-practice/wildfowling.cfm

## Cynnig

Gan mai ychydig o Wyddau Talcen-wyn yr Ynys Las sydd yn y byd a bod y niferoedd yn gostwng, a gan fod cyfran sylweddol o boblogaeth y DU yn bwrw'r gaeaf yng Nghymru ac yn hedfan dros Gymru, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno gwaharddiad statudol ar saethu Gwyddau Talcen-wyn yng Nghymru trwy gydol y flwyddyn gan ddechrau ym mis Medi 2013 (diwedd y 'tymor caeedig' presennol).

Mae hyn yn golygu y byddai'n drosedd cymryd neu ladd Gwyddau Talcen-wyn yng Nghymru ar unrhyw adeg o'r flwyddyn.

Mae'r cynnig yn cydnabod ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng y ddau fath o Wyddau Talcen-wyn allan yn y maes a byddai'n golygu bod moratoriwm gwirfoddol Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain (BASC) ar Wyddau Talcen-wyn yr Ynys Las a ddisgrifir uchod yn dod yn ddeddf.

Mae'r cynnig yn adlewyrchu deddfwriaeth yn yr Alban a Gogledd Iwerddon lle mae'r holl Wyddau Talcen-wyn yn cael eu gwarchod trwy'r amser gan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y diwygiwyd hi) a gan Orchymyn Bywyd Gwyllt (Gogledd Iwerddon) 1985.

Mae'r cynnig hefyd yn adlewyrchu statws Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las sy'n cael eu rhestru yn Nhabl 1, Colofn 2A* o Gynllun Gweithredu AWEA; mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Deyrnas Unedig warchod Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw chi:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

ebost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1. Ydych chi'n cytuno â'n casgliad ni bod angen rhagor o warchodaeth ar y boblogaeth o Wyddau Talcen-wyn yr Ynys Las yng Nghymru? Ydw, Ar y cyfan, Dim o gwbl).**

**Pam? / Pam ddim?  Beth yw'ch tystiolaeth i gefnogi'ch sylw/adau?**

**Cwestiwn 2: Ydych chi'n cefnogi'r bwriad i wahardd saethu Gwyddau Talcen-wyn yng Nghymru trwy gydol y flwyddyn? (Ydw, Ar y cyfan, Dim o gwbl).**

**Pam? / Pam ddim?**

**Beth yw'ch tystiolaeth i gefnogi'ch sylw/adau?**

**Cwestiwn 3: A oes camau eraill, gwahanol, y gellid eu cymryd yn lle hynny i warchod poblogaeth Gwyddau Talcen-wyn yr Ynys Las yng Nghymru gyda'r un eglurdeb a sicrwydd ag y nodir yng nghynnig Llywodraeth Cymru?**

**Beth ydynt? Beth yw'ch tystiolaeth i gefnogi'ch sylw/adau?**

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech chi godi rhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi cyfeirio atynt yn benodol, gallwch wneud hynny yma:

Nodwch yma:

Gall ymatebion i ymgynghoriadau gael eu cyhoeddi – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych i ni gadw'ch ymateb chi yn gyfrinachol, ticiwch yma: ☐